# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1, y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 19 Mehefin 2025

Amser: 10.32 - 12.16

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/15546

# Preifat, Hybrid

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Y Gw. Anrh. Elin Jones AS (Cadeirydd)<br>Paul Davies AS<br>Heledd Fychan AS<br>Jane Hutt AS |
| Staff y Pwyllgor: | Alun Davidson, Clerc<br>Beth Hales, Dirprwy Glerc |
| Eraill yn bresennol: | Bethan Davies, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Helen Finlayson, Clerc ar gyfer Adolygiad Gweithdrefnol Deddfwriaethol<br>Lisa Griffiths, Clerc Gweithdrefnau<br>Adam Vaughan, Ail Glerc<br>Josh Hayman, Ymchwilydd<br>Catrin Davies, Llywodraeth Cymru |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

| | |
|---|---|
| | Anthony Cooper, Llafur Cymru<br>Jennifer Ramsay, y Ceidwadwyr Cymreig<br>Francess Ifan, Plaid Cymru |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Llywydd yr Aelodau i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan Jane Dodds a David Rees.

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 5 Mehefin 2025

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol.

## 3 Trothwyon y rheolau sefydlog

Trafododd y Pwyllgor Busnes y papurau yn ymwneud â throthwyon Rheolau Sefydlog a'r argymhellion a wnaed yn flaenorol gan Bwyllgor Senedd y Dyfodol.

Trafododd yr Aelodau'r trothwy ar gyfer grwpiau a grwpiadau gwleidyddol a chytunwyd i ddychwelyd at hyn mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Cytunwyd, at ddibenion rhaglen waith weithdrefnol y Pwyllgor Busnes, y gellir tybio trothwy o bum aelod ar gyfer grwpiau a grwpiadau gwleidyddol am y tro.

Ni fyddwn yn ceisio penderfyniad terfynol ar y trothwy ar gyfer grwpiau a grwpiadau gwleidyddol nes bod ystyriaeth bellach wedi'i rhoi i oblygiadau ehangach, a'n bod wedi ymgynghori â'r grwpiau gwleidyddol.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar bob newid arall i drothwyon y Rheolau Sefydlog a gafodd eu hargymell gan Bwyllgor Senedd y Dyfodol.

### 3.1 Trothwyon Rheolau Sefydlog: Argymhellion Pwyllgor Senedd y Dyfodol

### 3.2 Y Trothwy ar gyfer Enwebu Cadeiryddion Pwyllgorau: Argymhellion Pwyllgor Senedd y Dyfodol

## 4 Categorïau o Aelodau

Cytunwyd ar y newidiadau arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog, yn amodol ar rai mân welliannau.

Nododd y Llywydd yr angen i gynnal adolygiad golygyddol o'r Rheolau Sefydlog tua diwedd rhaglen waith weithdrefnol y Pwyllgor Busnes, o ystyried nifer y newidiadau sy'n debygol o gael eu cynnig i'r Rheolau Sefydlog.

### 4.1 Categorïau o Aelodau: Adroddiad Drafft ar Ddiwygio Rheolau Sefydlog

### 4.2 Diwygio Rheolau Sefydlog: Categorïau o Aelodau

## 5 Rhannu swydd cadeirydd pwyllgor

Dywedodd Paul Davies, er nad oedd grŵp y Ceidwadwyr Cymreig yn cytuno â'r model arfaethedig o rannu swyddi cadeirydd pwyllgor, gan fod grŵp y Ceidwadwyr Cymreig yn ffafrio model Cadeirydd ac Is-gadeirydd, maent yn cydnabod bod y mwyafrif o blaid y cynigion ac felly byddent yn gweithio'n adeiladol i'w datblygu.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar y cynigion ar gyfer treial rhannu swyddi cadeirydd pwyllgorau, ac y dylai'r Rheolau Sefydlog dros dro er mwyn gweithredu'r treial gyfyngu'r treial i uchafswm o dri phwyllgor.

### 5.1 Rhannu swydd cadeirydd pwyllgor: Cytuno ar y cynnig terfynol

## 6 Adolygiad o’r prosesau craffu deddfwriaethol ar gyfer Biliau Cyhoeddus a Biliau Aelod

Ni chytunodd y Trefnydd â'r opsiynau a argymhellwyd yn y papur cysylltiedig, a chynigiodd opsiynau eraill.

Cytunodd yr Aelodau y dylid cynnal trafodaethau pellach rhwng Comisiwn y Senedd a swyddogion Llywodraeth Cymru cyn dychwelyd at yr eitem hon mewn cyfarfod yn y dyfodol.

### 6.1 Adolygiad o'r prosesau craffu deddfwriaethol ar gyfer Biliau Cyhoeddus a Biliau Aelod: Derbyniadwyedd gwelliannau 'union debyg'

## 7 Adolygiad o’r prosesau craffu deddfwriaethol ar gyfer Biliau Cyhoeddus a Biliau Aelod

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyhoeddi'r dystiolaeth a gyflwynwyd, ochr yn ochr â llythyr a ddaeth i law gan y Cwnsler Cyffredinol a’r Gweinidog Cyflawni.

**7.1 Adolygiad o’r prosesau craffu deddfwriaethol ar gyfer Biliau Cyhoeddus a Biliau Aelod: Cyhoeddi tystiolaeth**

**7.2 Atodiad 1: Materion a godwyd yn ystod sesiwn galw heibio i Aelodau**

**7.3 Atodiad 2: Materion a godwyd gan Aelodau a swyddogion a chanddynt brofiad o Filiau Aelod**

**7.4 Atodiad 3: Materion a godwyd gan Fforwm y Cadeiryddion**

## 8 Adolygiad o’r prosesau craffu deddfwriaethol ar gyfer Biliau Cyhoeddus a Biliau Aelod

Ymddiheurodd Paul Davies y bydd yn absennol ar gyfer y cyfarfod nesaf ddydd Iau 26 Mehefin 2025. Bydd Darren Millar yn ymuno â’r cyfarfod fel dirprwy.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal yn rhithwir.

**8.1 Adolygiad o'r prosesau craffu deddfwriaethol ar gyfer Biliau Cyhoeddus a Biliau Aelod: Biliau Aelod**

**8.2 Adolygiad o'r prosesau craffu deddfwriaethol ar gyfer Biliau Cyhoeddus a Biliau Aelodau: canlyniadau Biliau Aelod**

**8.3 Adolygiad o'r prosesau craffu deddfwriaethol ar gyfer Biliau Cyhoeddus a Biliau Aelodau: cymharu gweithdrefnau Biliau Aelodau**